# Adroddiad Blynyddol Craffu 2023-24



Cyfrannu at yrru gwelliant mewn gwasanaethau i bobl Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD

# Rhagair

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur gyda nifer o faterion wedi eu craffu yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu ac Ymchwiliad Craffu a Grŵp Tasg a Gorffen wedi adrodd ar eu gwaith. Gwnaed argymhellion penodol er mwyn gwella gwasanaethau i bobl Gwynedd yn unol â phwrpas craffu yng Ngwynedd.


Bu i ni dderbyn adroddiad adolygiad gan Archwilio Cymru o effeithiolrwydd craffu ddiwedd Medi 2023. Rhoddwyd camau mewn lle i ymateb i argymhellion yn deillio o'r adolygiad. Manylir yn yr adroddiad ar y daith i benderfyniad gan y Cyngor Llawn i gadw at ein trefniadau cyfredol o dri phwyllgor craffu a chymeradwyo camau gweithredu i wella effeithlonrwydd.

Cynhaliwyd hyfforddiant ar 'Arfer Gorau Pwyllgorau Craffu' ym mis Mawrth 2024. Nodwyd yn yr hyfforddiant y dylid gwneud llai er mwyn cyflawni mwy. Mae'n arferiad yng Ngwynedd i anelu at graffu uchafswm o dair eitem fesul cyfarfod Pwyllgor er mwyn sicrhau bod sylw teilwng yn cael ei roi i faterion a bod craffu yn gallu ychwanegu gwerth. Tynnwyd sylw yn yr hyfforddiant at enghreifftiau o waith craffu da yng Ngwynedd megis craffu yn arwain at sefydlu Protocol Syrthio. Braf oedd clywed persbectif gwahanol ar sut y gallwn wella ein trefniadau craffu ymhellach.

Mae'r adroddiad yma yn crynhoi'r gwaith craffu a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn gan amlygu effaith y gwaith craffu.

Rhoddwyd cyfle i'r holl aelodau, Aelodau Cabinet, Penaethiaid Adran a thrigolion Gwynedd i gynnig eitemau posib i'w craffu yn ystod 2024/25. Derbyniwyd dau awgrym o faterion posib i'w craffu gan drigolion Gwynedd. Byddwn yn adrodd ar lunio rhaglen waith ar gyfer 2024/25 yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

Drwy weithredu'n adeiladol gall craffu arwain at welliant mewn gwasanaethau i bobl Gwynedd. Hoffwn ddiolch i fy nghyd-gadeiryddion ac is-gadeiryddion, aelodau craffu, aelodau cabinet, swyddogion a phawb sydd wedi cyfrannu i'r gwaith craffu yn ystod y flwyddyn.



Cynghorydd Beth Lawton,
Cadeirydd y Fforwm Craffu

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Gweithdai Craffu** | 3 – 4 |
| **Adolygiad Archwilio Cymru** | 5 – 8 |
| **Fforwm Craffu** | 9 – 10 |
| **Pwyllgorau Craffu** | 11 – 23 |
| **Ymchwiliad Craffu** | 24 – 25 |
| **Grŵp Tasg a Gorffen** | 26 – 27 |
| **Herio Perfformiad** | 28 |
| **Hyfforddiant** | 29 |
| **Ffeithiau am Graffu yng Ngwynedd yn 2023/24** | 30 |

| | |
|---|---|
| **Rhestr o'r holl eitemau a graffwyd mewn cyfarfodydd ffurfiol yn ystod y flwyddyn** | 31 – 33 |

# Gweithdai Craffu

Cynhaliwyd gweithdai i lunio rhaglen waith ddrafft ar gyfer 2023/24 fesul Pwyllgor Craffu yn Ebrill a Mai 2023.

Yn gyntaf, cynhaliwyd hyfforddiant i'r aelodau craffu gan fanylu ar:

- Amcanion Llesiant y Cyngor sydd wedi eu llunio yn unol â'r gofyn o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Y Pum Ffordd o Weithio mae angen i gyrff gyhoeddus feddwl amdanynt i ddangos eu bod wedi dilyn yr egwyddor datblygu cynaliadwy o dan y Ddeddf –




- Cyswllt rhwng y Pum Ffordd o Weithio a Ffordd Gwynedd (rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bob dim mae'r Cyngor yn ei wneud).

Atgoffwyd yr aelodau o bwrpas craffu yng Ngwynedd, sef:

**CYFRANNU AT YRRU GWELLIANT MEWN GWASANAETHAU I BOBL GWYNEDD**

Gwneir hyn yn adeiladol trwy:

- Ymchwilio i bryderon am ansawdd ein gwasanaethau
- Weithredu fel Ffrind Critigol yn sicrhau fod sylw priodol yn cael ei roi i lais y dinesydd
- Adnabod ymarfer da a gwendidau
- Dal y Cabinet a'i aelodau i gyfrif
- Adolygu neu graffu penderfyniadau neu weithredoedd nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cabinet

Yn ail, tynnwyd sylw aelodau craffu at bethau i'w cofio wrth ymgymryd â gwaith craffu -

- **Pwysigrwydd paratoi** cyn cymryd rhan mewn gwaith craffu gan gynnwys darllen y rhaglen a'r adroddiadau cyn y cyfarfod.
- **Peidio ail-adrodd** cwestiwn neu sylw sydd wedi ei wneud eisoes yn ystod trafodaeth.
- **Dal ati** i ofyn cwestiynau nes derbyn y wybodaeth rydych ei angen.
- **Gwrando ar yr atebion** ac addasu neu ofyn cwestiynau atodol yn seiliedig ar yr atebion a dderbynnir.

Yna, symudwyd ymlaen i lunio fersiwn gyntaf rhaglen waith y Pwyllgorau Craffu ar gyfer 2023-24.

Anfonwyd rhestr o eitemau posib i'w craffu at aelodau'r pwyllgor craffu perthnasol ymlaen llaw. Gofynnwyd i aelodau ymateb i gwestiwn ar-lein cyn y gweithdy - ***Beth yw eich 5 prif flaenoriaeth?*** - gan gadw mewn cof y ffactorau canlynol:

- A yw'r mater yn effeithio ar gyfran helaeth o'r boblogaeth?
- A yw craffu yn gallu gwneud gwahaniaeth / cael dylanwad? (Pobl / gwasanaeth / perfformiad)
- A yw'r mater yn amserol i'w graffu?
- Ydi'r mater yn flaenoriaeth i'r Cyngor?
- A ydym yn glir beth ydym yn ceisio ei wella?

Nodwyd yr eitemau a ddaeth i'r brig o'r ymatebion i'r cwestiwn. Rhoddwyd cyfle i'r aelodau drafod:

***A ydych yn cytuno gyda'r 5 prif flaenoriaeth?***

***Beth yn ychwanegol o'r rhestr y dylid ei graffu yn ystod 2023/24?***

Cynhaliwyd trafodaethau agored gan lunio fersiwn cychwynnol o'r rhaglen waith ddrafft gan anelu at flaenoriaethu uchafswm o dair eitem fesul cyfarfod. Cyn gwahodd y Penaethiaid ac Aelodau Cabinet perthnasol i ymuno i adnabod unrhyw fater oedd angen ystyriaeth yng nghyd-destun y materion a flaenoriaethwyd ac o ran amseru'r craffu.

Roedd gan bob pwyllgor rhaglen waith ddrafft ar ddiwedd y gweithdy. Manylir ar y camau nesaf o dan y pennawd 'Fforwm Craffu'.

# Adolygiad Archwilio Cymru

Cyfeiriwyd at adolygiad gan Archwilio Cymru o effeithiolrwydd craffu yn Adroddiad Blynyddol 2022-23. Ar y pryd, roeddem yn disgwyl am ganfyddiadau'r adolygiad a gynhaliwyd yn ystod Chwefror 2023 - Ebrill 2023.

Bu iddynt edrych ar ein trefniadau craffu gyda'r adolygiad yn gofyn y cwestiwn:

***'A oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer craffu mewn pwyllgorau cyhoeddus?'***

Derbyniwyd yr adroddiad terfynol ddiwedd Medi 2023 – **Adolygiad o effeithiolrwydd craffu – Cyngor Gwynedd**. Roedd yn adroddiad calonogol gyda 6 argymhelliad.

Addawyd adolygu llwyth gwaith y pwyllgorau yn sgil penderfyniad y Cyngor Llawn ym Mehefin 2022 i leoli materion corfforaethol yn y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi. Penderfynwyd mai synhwyrol fyddai adolygu llwyth gwaith y gwahanol bwyllgorau ar yr un pryd ag ystyried y gwelliannau i'n trefniadau craffu yn dilyn derbyn adroddiad Archwilio Cymru.

Rhoddwyd cyfle i Aelodau a swyddogion i roi mewnbwn. Cynhaliwyd dau weithdy i aelodau gyda 23 aelod wedi mynychu. Rhoddwyd cyfle i'r aelodau fynegi barn ynghylch y lleoliad mwyaf addas i graffu materion corfforaethol ynghyd a materion eraill yn ymwneud â chraffu.

Yn dilyn yr ymgynghori, lluniwyd opsiynau posib ar gyfer ein trefniadau craffu. Cyflwynwyd gwybodaeth a'r opsiynau posib gan nodi manteision ac anfanteision pob un opsiwn i gyd-gyfarfod o'r Fforwm Craffu a'r Aelodau Cabinet, y Tîm Rheoli (Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Penaethiaid) cyn i'r Fforwm Craffu ddod i gasgliad y dylid cadw'r trefniadau cyfredol o 3 Bwyllgor Craffu am y rhesymau yma:

- Derbyniwyd adroddiad positif gan Archwilio Cymru, byddai mynd i'r afael gyda'r camau gweithredu yn adeiladu ar lwyddiant y trefniadau cyfredol a'u cryfhau, gan wella effeithiolrwydd craffu ymhellach;
- Mae cynnydd da eisoes wedi ei wneud gyda'n trefniadau craffu, a gwelwyd gweithredu ar rai o'r camau eisoes megis miniogi'r argymhellion gan y pwyllgorau a datblygiad y blaen raglen cabinet;
- Mae profiad wedi dangos bod rhaglenni gwaith yn sefydlogi dros gyfnod o 5 mlynedd;
- Er bod blaenoriaethu materion yn gallu bod yn her, mae'n galluogi craffu ar drawstoriad o faterion ac yn osgoi craffu gormodol ar un pwnc all fod o ddiddordeb penodol i unigolion;

- Bydd datblygu'r trefniadau ar gyfer y Fforymau Ardal/sesiynau briffio a chyflwyno gwybodaeth yn galluogi Aelodau i gael gwybodaeth fanwl am eu hardal mewn ffyrdd penodol, gan alluogi'r Pwyllgorau Craffu i graffu yn strategol ar faterion penodol.

Cyflwynwyd adroddiad yn seiliedig ar gasgliadau'r Fforwm Craffu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 18 Ionawr 2024 iddynt gymeradwyo bod trefniadau'r adolygiad wedi eu cwblhau yn briodol. Penderfynodd y Pwyllgor argymell i'r Cyngor Llawn gymeradwyo cadw at y trefniadau Pwyllgorau Craffu cyfredol yn ddarostyngedig bod gwaith yn cael ei gynnal i wella effeithlonrwydd a gweithrediadau'r Pwyllgorau Craffu.

Gweler isod y camau gweithredu a gyflwynwyd i'r Cyngor Llawn ar 7 Mawrth 2024 i ymateb i argymhellion Archwilio Cymru er mwyn gwella effeithlonrwydd ein trefniadau craffu.

| | **ARGYMHELLIAD** | **CAMAU GWEITHREDU** |
|---|---|---|
| 1 | Dylai blaen-raglen y Cabinet a Chynllun y Cyngor gael rhagor o ddylanwad ar flaen-raglen y pwyllgorau craffu cyhoeddus fel bod allbwn craffu yn bwydo i mewn i benderfyniadau a gynllunnir gan y Cabinet. | RYDYM WEDI:<br>• Amlygu materion Cynllun y Cyngor wrth flaenoriaethu materion i'w craffu yn y gweithdai blynyddol a'u cyflwyno yn y Pwyllgorau Craffu.<br>• Cryfhau blaen raglen y Cabinet.<br>• Addasu templed adrodd i'r Cabinet er mwyn amlygu materion sydd wedi eu blaen graffu.<br>RYDYM AM:<br>• Amlygu materion Cynllun y Cyngor/sy'n cael eu blaen graffu ymhellach trwy eu gwneud yn fwy gweledol.<br>• Sicrhau fod mwy o wybodaeth am flaen raglen y Cabinet ar gael yn amserol. |
| 2 | Dylid rhoi amlygrwydd uwch i wybodaeth perfformiad o fewn y pwyllgorau craffu cyhoeddus er mwyn herio'r cynnydd a wneir. | RYDYM WEDI:<br>• Cychwyn adnabod cryfderau a gwendidau ein trefniadau cyfredol<br>• Adnabod rôl i'r cyfarwyddwyr corfforaethol gefnogi'r craffwyr i adnabod materion i'w craffu.<br>RYDYM AM:<br>• Weithio gyda'r Prif Weithredwr i lunio trefniadau cyflwyno gwybodaeth perfformiad mewn pwyllgorau craffu yn ffurfiol gan ddatblygu rôl y cyfarwyddwyr corfforaethol i gefnogi'r craffwyr. |

| | | |
|---|---|---|
| 3 | Dylid defnyddio darparwyr priodol boed yn fewnol neu yn allanol i gyflenwi hyfforddiant mewn meysydd arbenigol fel sgiliau cwestiynu, materion ariannol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, er mwyn cynyddu hyder aelodau i herio yn effeithiol. | RYDYM WEDI:<br>• Cynnal hyfforddiant i'r Cadeiryddion a'r is-gadeiryddion ar drefniadau craffu.<br>• Cynnal hyfforddiant ynghylch datgan buddiant pan fo Cynghorwyr 'rhy agos' at bwnc penodol.<br>• Trefnu hyfforddiant i'r holl Gynghorwyr ar sgiliau cwestiynu a chreu argymhellion (arfer da).<br><br>RYDYM AM:<br>• Gynnal hyfforddiant i Gadeiryddion a darpar Gadeiryddion ym mis Mai 2024.<br>• Atgoffa'r Cynghorwyr eto eleni am faterion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y gweithdai craffu blynyddol. |
| 4 | Dylid adolygu prosesau craffu i sicrhau bod pwyslais priodol ar ddeddfwriaeth gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â hwy. | RYDYM AM:<br>• Atgoffa'r Cynghorwyr eto eleni am faterion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Cydraddoldeb 2010 yn y gweithdai craffu blynyddol.<br>• Atgoffa'r holl Gynghorwyr craffu o'r pwysigrwydd i fynychu'r gweithdai craffu blynyddol a chymryd rhan yn yr hyfforddiant sydd ar gael. |
| 5 | Dylid ystyried cynnal nifer uwch o ymchwiliadau gan wahodd nifer gyfyngedig o aelodau i ymuno'r grŵp tasg a gorffen o blith pob pwyllgor craffu neu'r holl aelodau, fel bod y sawl sydd â diddordeb yn y maes yn cael cyfle i gymryd rhan a chynnal brwdfrydedd. Bydd hyn yn gyfrwng i ymgysylltu efo'r cyhoedd yn ogystal. | RYDYM WEDI:<br>• Ail sefydlu rhaglen ymchwiliadau (a ddaeth i ben dros gyfnod covid am resymau amlwg), o fewn yr adnoddau sydd ar gael.<br>• Cadw at ein trefniadau cyfredol o gynnig i aelodau'r pwyllgorau craffu fel man cyntaf cyn ymestyn i'r holl aelodau.<br>• Cynnal hyfforddiant i'r Cadeiryddion a'r is-gadeiryddion ar faterion datgan buddiant a sicrhau fod gweithredu yn briodol.<br><br>RYDYM AM:<br>• Gynorthwyo Cynghorwyr i adnabod meysydd addas lle dylid blaenoriaethu cynnal ymchwiliad(au). |

| | | |
|---|---|---|
| 6 | Dylid cryfhau'r broses o adrodd ar benderfyniadau pwyllgorau craffu a mabwysiadu trefn olrhain ffurfiol, er mwyn cael y gwerth am arian gorau ac amlygu'n gyhoeddus cyfraniad y gyfundrefn craffu i drefniadau llywodraethu'r Cyngor. | RYDYM WEDI:<br>• Cynnal hyfforddiant i Gadeiryddion ac is-gadeiryddion gyda phwyslais ar sicrhau argymhellion cryf / cyfeirio materion i'r Cabinet er mwyn galluogi olrhain yn haws.<br>• Gweler uchod ynghylch cryfhau templed adrodd i'r Cabinet.<br><br>RYDYM AM:<br>• Gynnal hyfforddiant cwestiynu a chreu argymhellion i'r holl aelodau, i'w cynorthwyo i gwestiynu yn fwy effeithiol a gwneud gwell defnydd o amser craffu.<br>• Sefydlu rôl i Gadeiryddion Craffu wrth gyflwyno materion i'r Cabinet sydd eisoes wedi eu blaengraffu.<br>• Sefydlu trefn dracio ffurfiol yn dilyn gweithredu ar yr hyfforddiant a gweld allbwn hynny. |

Penderfynodd y Cyngor Llawn gadw at y trefniadau pwyllgorau craffu cyfredol gan gymeradwyo'r camau gweithredu i wella effeithlonrwydd.

Mae gwella effeithlonrwydd ein trefniadau craffu yn daith barhaus, byddwn yn bachu ar unrhyw gyfle i adeiladu ar ein trefniadau presennol a bwriedir cyflwyno newidiadau i'n trefniadau ymarferol yn ystod 2024/25.

# Fforwm Craffu

Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu yw aelodau'r Fforwm Craffu. Mae'r Fforwm yn cymryd trosolwg o holl waith craffu'r Cyngor gyda'r aelodau yn herio naill a'r llall i sicrhau fod y materion cywir yn cael eu blaenoriaethu. Rôl y Fforwm Craffu yw:

- Cynghori ar FLAENORIAETHU eitemau i'w craffu (mwyafrif yn craffu ffurfiol gyda nifer fechan o ymchwiliadau) gan herio sail adnabod eitemau i'w craffu.
- Adnabod y dull craffu mwyaf effeithiol o fewn yr adnoddau sydd ar gael (craffu ffurfiol / ymchwiliad)
- Adnabod eitemau sydd er gwybodaeth, gan geisio osgoi defnyddio trefniadau craffu i gyflawni'r rôl rhannu gwybodaeth.
- Asesu cyfraniadau'r pwyllgorau unigol ac asesu EFFAITH y gwaith craffu, gan adolygu ein trefniadau craffu yn barhaus.

Etholwyd cadeiryddion ac is-gadeiryddion ar gyfer 2023/24 yng nghyfarfod cyntaf y pwyllgorau craffu. Dyma'r cadeiryddion ac is-gadeiryddion fesul pwyllgor:

**Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi**



Cynghorydd
Elwyn Jones



Cynghorydd
Paul Rowlinson

**Pwyllgor Craffu Cymunedau**



Cynghorydd
Elin Hywel



Cynghorydd
Annwen Hughes

**Pwyllgor Craffu Gofal**



Cynghorydd
Beth
Lawton



Cynghorydd
Linda Ann
Jones

Yng nghyfarfod cyntaf y Fforwm ar 15 Mai 2023, trafodwyd rôl craffu yn y trefniadau hunanasesiad perfformiad, cynnwys posib Adroddiad Blynyddol 2022-23 a ystyriwyd y flaen-raglen craffu drafft.

Rhoddwyd trosolwg o'r flaen-raglen ddrafft i sicrhau fod y materion cywir wedi eu blaenoriaethu. Roedd y Fforwm yn gefnogol i'r flaen-raglen craffu ac i gyflwyno rhaglen waith y Pwyllgorau unigol i'r cyfarfodydd cyntaf i'w cymeradwyo. Nododd aelodau eu cefnogaeth i'r bwriad i gynnal Grŵp Tasg a Gorffen i edrych ar weithrediad y Cynllun Awtistiaeth.

Bu i'r Fforwm yn ei gyfarfod ar 17 Gorffennaf 2023 dderbyn gwybodaeth am rôl y Fforwm, ystyried y blaen-raglen ac adroddiad drafft Archwilio Cymru. Rhoddwyd hyfforddiant i'r Fforwm yng nghyfarfod 3 Hydref 2023 ar elfennau cyfreithiol cynnal cyfarfodydd pwyllgorau craffu. Cafwyd trafodaeth am adroddiad Archwilio Cymru a'r bwriad o ran y gweithdai aelodau fel rhan o'r adolygiad i'n trefniadau craffu.

Cynhaliwyd cyd-gyfarfod o'r Fforwm a'r Cabinet ar 5 Rhagfyr 2023 i ystyried cynnwys y blaen-raglenni Craffu a Cabinet, yr adolygiad craffu a'r camau nesaf a threfniadau trosolwg a chraffu arfaethedig Cyd-Bwyllgor Corfforedig Rhanbarth y Gogledd. Yn ystod y flwyddyn bu i'r Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion gyfarfod gyda'r Aelodau Cabinet a Phenaethiaid perthnasol ddwywaith. Pwrpas y cyfarfodydd cyswllt yw rhoi cyfle i drafod yn agored sut mae pethau'n mynd a sut i wella effaith craffu yng Ngwynedd yn ogystal ag adnabod eitemau posib i'w craffu yn ystod y flwyddyn ganlynol.

Cyn i adroddiad yr adolygiad gael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, cynhaliwyd cyfarfod o'r Fforwm ar 11 Rhagfyr 2023 i drafod yr adolygiad craffu a'r camau nesaf. Hefyd yn y cyfarfod, rhoddwyd ystyriaeth i'r flaen-raglen craffu a threfniadau craffu posib ar gyfer Cyd-Bwyllgor Corfforedig Rhanbarth y Gogledd.

Yng nghyfarfod y Fforwm ar 19 Chwefror 2024, bu'r aelodau yn trafod trefniadau Gweithdai Blynyddol 2024/25, y flaen-raglen Craffu ar ei fformat newydd yn amlygu'r rheswm dros graffu, blaen-raglen y Cabinet, Adolygiad Craffu a'r camau gweithredu a'r hyfforddiant craffu a fyddai'n cael ei gynnal ym mis Mawrth 2024. Gweler gwybodaeth am yr hyfforddiant ar dudalen 29 yr adroddiad blynyddol.

# Pwyllgorau Craffu

Mae tri phwyllgor craffu yng Ngwynedd gyda rôl i graffu meysydd gwaith penodol gan bob un. Yn y rhan yma, mae gwybodaeth am ba feysydd gwaith mae'r gwahanol bwyllgorau yn gyfrifol am ei graffu, yr eitemau a graffwyd yn ystod 2024-25 mewn cyfarfod Pwyllgor a'r rheswm dros graffu ac effaith fesul eitem.

Rhoddir pwyslais ar graffu yn ychwanegu gwerth yng Ngwynedd gyda eitemau yn cael eu blaenoriaethu er mwyn eu craffu yn amserol i uchafu'r effaith. Gellir gweld yr effaith yn syth neu gall gymryd amser gyda'r angen i wneud newidiadau er mwyn gwireddu ac amser i'r newidiadau yna arwain at welliant mewn gwasanaethau i bobl Gwynedd.

## Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi

Adran Addysg, Adran Economi a Chymuned, GwE, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Tîm Arweinyddiaeth a Chyfreithiol, Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, Adran Gyllid, Gweithrediad Mewnol y Cyngor a Partneriaethau

**Cynllunio Argyfwng**
*Sicrhau bod trefniadau mewn lle o ran cynllunio argyfwng*

Craffwyd sut mae Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio Argyfwng y Gogledd yn cyfrannu at wydnwch a diogelwch cymunedau yng Ngwynedd, rhaglen waith y gwasanaeth rhanbarthol a'r strwythur o fewn y Cyngor i ymateb i sefyllfa frys neu argyfwng.

***Effaith Craffu*** – Derbyn sicrwydd bod trefniadau mewn lle i ymateb i argyfwng.

**Canol Trefi Gwynedd**
*Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Lewyrchus*

Mae paratoi cynlluniau gweithredu Canol Tref/Dinas ar gyfer trefi unigol yn elfen o'r prosiect 'Adfywio cymunedau a chanol tref' yng Nghynllun y Cyngor 2023-28. Craffwyd y trefniadau ar gyfer paratoi cynlluniau gweithredu, pwy sydd yn cael ei gynnwys wrth eu datblygu a sut bwriedir mesur effaith y cynlluniau gweithredu.

***Effaith Craffu*** – Derbyn cadarnhad o ran y sefyllfa gyllidol i wireddu a derbyn sicrwydd bod y cynlluniau gweithredu canol tref/dinas yn cyd-blethu gyda'r Fframwaith Adfywio.

**Cynllun Digidol**
*Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Effeithlon*

Ystyriwyd y Cynllun Digidol drafft gan gynnwys y rhaglen waith i gyfarch y pum blaenoriaeth ddigidol, sef: Cyswllt Cwsmer; Gwybodaeth a Data; Gweinyddiaeth a Systemau Busnes; Gweithlu; Gwydnwch. Craffwyd y Cynllun cyn iddo fynd gerbron y Cabinet ar 7 Tachwedd 2023 i'w gymeradwyo.

***Effaith Craffu*** – Trafodaeth buddiol yn amlygu materion i roi sylw iddynt megis bod technoleg ddigidol yn cynyddu'r pellter rhwng y ddau berson sy'n cyfathrebu â'i gilydd, bod lle i addysgu cynghorwyr ac eraill o ran technoleg deallusrwydd artiffisial a'r angen i fod yn effro i ddatblygiadau newydd yn y maes digidol.

**Strategaeth Addysg**
*Blaengraffu*

Craffwyd gweledigaeth, gwerthoedd ac amcanion yr Adran Addysg yn y Strategaeth Addysg ddrafft tuag at 2032 a thu hwnt a'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb a Llesiant.

***Effaith Craffu*** – Amlygwyd materion i roi sylw iddynt gan gynnwys yr angen i ail-edrych ar y Strategaeth Addysg yng ngoleuni adroddiad Ymchwiliad Craffu Ysgolion Uwchradd Categori 3 Gwynedd, ac yn benodol o ran sut yr ymdrinnir â dwyieithrwydd.

**Presenoldeb ac ymddygiad disgyblion yn ysgolion Gwynedd**
*Effaith cyfnod pandemig Covid-19 ar y maes*

Craffwyd lefelau presenoldeb a gwaharddiadau ar draws ysgolion Gwynedd, gan gynnwys amlinelliad o'r prif resymau dros absenoldebau a gwaharddiadau. Ystyriwyd darpariaeth yr Adran Addysg a'r rhaglen waith i ymateb i'r galw.

***Effaith Craffu*** – Derbyn sicrwydd bod rhaglen waith mewn lle i ymateb i'r sefyllfa.

**Adroddiad Estyn ar wasanaethau addysg yng Nghyngor Gwynedd**
*Adroddiad Archwiliwr Allanol*

Ystyriwyd adroddiad Estyn gyda 3 argymhelliad yn deillio ohono, sef:

- sicrhau bod arweinwyr yn gweithredu yn strategol ar bob agwedd o'u gwaith a bod ganddynt oruchwyliaeth addas ac ystyriaeth lawn o risg ynghylch agweddau pwysig sydd wedi codi yn ystod yr arolygiad;

- gwella trefniadau monitro, gwerthuso a hyrwyddo presenoldeb disgyblion;
- cryfhau'r ddarpariaeth i ymateb i anghenion disgyblion â chanddynt anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a sicrhau trefniadau monitro a gwella ansawdd y ddarpariaeth honno.

***Effaith Craffu*** – Derbyn sicrwydd bod yr Adran Addysg yn ymateb i argymhellion Estyn a penderfynu tracio cynnydd ar ymateb i'r argymhellion mewn 9 mis.

**Cwmni Byw'n Iach**

*Mater ar y gofrestr risg*

Mae cyfnod pandemig Covid-19 wedi cael effaith ar incwm canolfannau Byw'n Iach. Gan fod y mater wedi ei gynnwys ar Gofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor, craffwyd - os yw'r cwmni yn darparu gwasanaethau yn unol â'r cytundeb, a yw cyfraniad y Cyngor yn ddigonol o ystyried y newid yn yr amgylchiadau a pa gamau a gymerir i geisio cynyddu incwm.

***Effaith Craffu*** – Derbyn sicrwydd bod y risg yn derbyn sylw a pa gynlluniau sydd gan Byw'n Iach o ran cefnogi pobl incwm is, a phlant yn benodol.

Adnabuwyd yr angen i anfon llythyr at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn amlygu'r gwaith a wneir gan Cwmni Byw'n Iach yng nghyswllt y Cynllun Cyfeirio Ymarfer Corff Cenedlaethol a'r angen am fwy o gyllid i ariannu ei weithrediad yng Ngwynedd.

Bu i'r Pwyllgor uchafu'r mater i lefel genedlaethol oherwydd pwysigrwydd gwaith ataliol sydd yn cyfrannu at weledigaeth y Llywodraeth ar gyfer Cymru Iachach, sef i roi mwy o bwyslais ar atal salwch ac ar helpu pobl i reoli eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

**Rheolaeth Traethau**

*Mater ar y gofrestr risg*

Mae'r mater wedi ei gynnwys ar gofrestr risg yr Adran Economi a Chymuned. Y prif risg ydi diogelwch pobl yn y môr lle gall fod peryglon i fywyd, ynghyd â pheryglon o strwythurau a gwrthrychau ar y traeth. Craffwyd y trefniadau ar gyfer rheolaeth traethau a rheolaeth benodol lle mae risg uwch o ran diogelwch.

***Effaith Craffu*** – Derbyn sicrwydd bod trefniadau mewn lle i reoli traethau a lliniaru risgiau.

**Prosiect Datblygu Economi Gwynedd**

*Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Lewyrchus*

Amcan y prosiect yw creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith. Craffwyd cynnwys y prosiect a chynnydd yr Adran Economi a Chymuned yn ei weithredu er mwyn sbarduno twf yn economi Gwynedd.

***Effaith Craffu*** – Derbyn sicrwydd bod cynnydd yn digwydd i gyflawni'r prosiect blaenoriaeth.

**Amcanion Cydraddoldeb 2024-28**

*Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Effeithlon*

Dyletswydd penodol ar fudiadau cyhoeddus yng Nghymru, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, i adolygu Amcanion Cydraddoldeb bob pedair blynedd, fel rhan o greu Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

***Effaith Craffu*** - Mewnbwn craffu i'r amcanion cydraddoldeb drafft cyn i'r Cabinet fabwysiadu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28.

**Adroddiad Blynyddol Addysg ac Adroddiad Blynyddol GwE**

*Eitemau Blynyddol / Sicrwydd*

Craffwyd Adroddiad Blynyddol 2022/23 yr Adran Addysg a oedd yn manylu ar yr hyn a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn gan dynnu sylw at brif brosiectau blaenoriaeth, gwaith arferol dydd i ddydd, nodweddion cadarnhaol, heriau, ynghyd â meysydd oedd angen sylw dros y cyfnod nesaf. Ynghyd â Adroddiad Blynyddol GwE a oedd yn adrodd ar gynnydd yn erbyn y pum maes allweddol yn ogystal â nodi'r camau nesaf ar y llwybr gwella.

***Effaith Craffu*** – Gwneud sylwadau am yr hyn sydd wedi ei gyflawni a blaenoriaethau'r Adran Addysg a camau nesaf GwE ar gyfer y cyfnod nesaf.

**Prosiect Addysg Ôl-16 yn Arfon**

*Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Yfory*

Bu i Addysg Ôl-16 gael ei adnabod fel un o brif flaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor 2018-23. Yn sgil trafodaethau gyda rhanddeiliaid, am amryw o resymau daethpwyd i'r casgliad nad oedd yr achos dros newid Addysg Ôl-16 Arfon mor gryf. Penderfynodd y Cabinet ar 28 Tachwedd 2023 i awdurdodi'r Pennaeth Addysg i gynnal trafodaethau ar adolygu'r memorandwm o ddealltwriaeth gyda'r rhan-ddeiliaid sydd yn ffurfio Consortiwm Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn; ac arallgyfeirio rhan o gyllideb Prosiect Ôl-16 i gyfarch y bwlch ariannol ym mhrosiectau Band B - Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

***Effaith Craffu*** - Dilyniant yn dilyn craffu'r broses ymgysylltu anffurfiol a gynhaliwyd ar addysg ôl-16 yng nghyfarfod 4 Chwefror 2021. Derbyn sicrwydd o ran y cyfeiriad a'r camau nesaf.

**Cynllun Twf Gogledd Cymru – Adroddiad Perfformiad Chwarter 3 2023/24**
*Rôl y Pwyllgor i graffu gwaith y Bwrdd Uchelgais*

Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaeth Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru a Llywodraethau Cymru a'r Deyrnas Gyfunol gytuno ar y cytundeb terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. Mae adrodd ar gynnydd y Cynllun Twf yn rheolaidd yn un o ofynion y Cytundeb Terfynol. Craffwyd adroddiad Chwarter 3 y Cynllun Twf a Chofrestr Risg y Portffolio.

***Effaith Craffu*** – Craffu cynnydd ac effaith y Cynllun Twf ar Wynedd gan fodloni bod mesurau lliniaru mewn lle i ymateb i'r risgiau.

**Cinio ysgol am ddim**
*Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Yfory*

Derbyniwyd diweddariad cynnydd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 8 Rhagfyr 2022. Penderfynwyd gofyn am ddiweddariad pan fyddai'r cynllun wedi ymestyn ar draws y sector cynradd. Ystyriwyd y cynnydd a wnaed a'r gwaith sy'n cael ei wneud i godi'r niferoedd ac i edrych ar y rhesymau pam nad yw rhai disgyblion yn cymryd cinio ysgol.

***Effaith Craffu*** – Tracio cynnydd ac amlygu materion sydd angen eu hystyried.

## Pwyllgor Craffu Cymunedau

Adran Amgylchedd, Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC (Ymgynghoriaeth Gwynedd), Cynllun Datblygu Lleol, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Trosedd ac Anrhefn a'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur

**Adroddiad Blynyddol 2022/23 - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn**
*Rôl y Pwyllgor i graffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus*

Ystyriwyd adroddiad blynyddol y Bwrdd ar gyfer 2022-23 a oedd yn adlewyrchu ar yr hyn a gyflawnwyd gan y Bwrdd i wella llesiant cymunedau yn ystod y cyfnod.

***Effaith Craffu*** - Monitro cynnydd ymdrechion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth weithredu'r Cynllun Llesiant.

**Datblygiadau yn y maes Cludiant Cyhoeddus**
*Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd*

Mae'r maes cludiant cyhoeddus wedi ei flaenoriaethu yng Nghynllun y Cyngor 2023-28. Nodir gweledigaeth glir o "adolygu ein darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus bresennol gyda'r nod o ddatblygu rhwydwaith cludiant cyhoeddus fydd yn gyfleus, yn ddibynadwy ac yn rhesymol ei gost er mwyn caniatáu i drigolion Gwynedd deithio yn hwylus bob diwrnod o'r wythnos."

Craffwyd yr hyn a oedd ar waith a'r cynlluniau ar gyfer y rhwydwaith i'r dyfodol.

***Effaith Craffu*** – Derbyn sicrwydd bod cynnydd yn cael ei wneud i wireddu gweledigaeth y prosiect blaenoriaeth.

**Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Y Cytundeb Cyflawni**
*Rôl i graffu'r Cynllun Datblygu Lleol / Cynllun y Cyngor 2023-28*

Cam cyntaf y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd ydi paratoi Cytundeb Cyflawni. Mae'n gosod allan amserlen ar gyfer paratoi y CDLl a'r modd y bydd y Cyngor yn cynnwys y gymuned leol a rhanddeiliaid eraill yn y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd.

***Effaith Craffu*** – Adnabod risg posib ychwanegol i'r Cynllun Datblygu Lleol - 'ymgynghori'. Sef, y risg o beidio ymgynghori yn ddigonol. O ganlyniad i'r craffu, cafodd ei ychwanegu fel risg posib yn Atodiad 5 y Cytundeb Cyflawni "Risgiau Posib a Dulliau Ymateb".

**Cyflwyno pwyntiau gwefru cyhoeddus ar gyfer cerbydau trydan**
*Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd*

Mae'r Cyngor yn datblygu rhwydwaith o dros gant o bwyntiau gwefru ar gyfer cerbydau trydan ar draws Gwynedd. Craffwyd y gwaith a gyflawnwyd hyd yma wrth ddatblygu rhwydwaith peiriannau gwefru, a'r hyn oedd ar y gweill dros y cyfnod nesaf.

***Effaith Craffu*** – Amlygu'r angen i edrych ar ddarparu mwy o beiriannau gwefru chwim. Gofyn i'r Aelod Cabinet/Adran Amgylchedd i ystyried y posibilrwydd.

**Toiledau Cyhoeddus**
*Craffu rheolaeth y ddarpariaeth toiledau cyhoeddus*

Mabwysiadwyd Strategaeth Toiledau Cyhoeddus yn 2019, ystyriwyd ei fod yn amserol i graffu rheolaeth y ddarpariaeth toiledau cyhoeddus.

***Effaith Craffu*** – Mewnbwn cyn i'r Gwasanaeth ddatblygu cynllun gweithredu.

**Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur**
*Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd*

Blaengraffwyd yr Adroddiad Blynyddol a oedd yn adrodd ar y cynnydd a wnaed yn gweithredu'r Cynllun ers Mawrth 2022, cyn i'r Cabinet ei ystyried.

***Effaith Craffu*** – Argymell y dylid ychwanegu gwybodaeth am 'Teithio Llesol' o dan Adran 3 yr Adroddiad: 'Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016' ac ystyried addasu ffurf arddangos y wybodaeth o dan y teitlau 'Beth y wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2022/23' a 'Be wnaethom ni' yn Adrannau 5-11 yr Adroddiad er eglurder i'r darllenydd. O ganlyniad, addaswyd ffurf arddangos y wybodaeth.

Amlygwyd yr angen i'r Cabinet ystyried yr adnodd staff i gyflawni gweledigaeth y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur. Enghraifft o graffu yn amlygu mater sydd angen sylw er sicrhau cyflawni.

**Strategaeth Llifogydd Lleol**
*Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd*

Craffwyd y mater ar ddau achlysur. Yn gyntaf, craffwyd prif amcanion y Strategaeth yn ogystal â'r risgiau mewndirol/dalgylchol, risgiau arfordirol a'r camau gweithredu ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i'n cymunedau. Ar yr ail achlysur, craffwyd y Strategaeth lawn cyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus.

***Effaith Craffu*** - Argymhellwyd y dylid cynnwys gwybodaeth am y risg o ran ffyrdd yn llifogi yn ogystal â'r risg i eiddo yn y Strategaeth Llifogydd Lleol a chodi ymwybyddiaeth holl drigolion o sut i baratoi ar gyfer llifogydd. O ganlyniad, ychwanegwyd cam gweithredu penodol ynghylch perygl llifogydd i'r rhwydwaith priffyrdd (Cam Gweithredu 2.3A) a chyfeiriadau clir yn y ddogfen at ffynonellau gwybodaeth ar gyfer perchnogion eiddo sydd mewn perygl o lifogydd.

**Diweddariad Blynyddol gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn**
*Rôl y Pwyllgor fel Pwyllgor Trosedd ac Anrhefn*

Ystyriwyd trosolwg o weithgareddau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn am y cyfnod 2023/24.

***Effaith Craffu*** – Derbyn sicrwydd o ran gwaith y Bartneriaeth dros y cyfnod ynghyd â blaenoriaethau a chyfeiriad y gwaith i'r dyfodol.

**Torri Gwair a Chynnal Tiroedd**
*Dilyniant yn dilyn craffu yng nghyfarfod 19 Ionawr 2023*

Cyflwynwyd diweddariad ar y treialon torri-a-chasglu a oedd yn cymryd lle mewn ardaloedd dethol o fewn y Sir i hyrwyddo anghenion bywyd gwyllt a bioamrywiaeth a'r gwaith i godi ymwybyddiaeth am y trefniadau torri gwair ar ffyrdd sirol.

***Effaith Craffu*** – Derbyn sicrwydd o ran y cyfeiriad ac adnabod yr angen i dderbyn diweddariad ymhen blwyddyn.

**Trefniadau Cyflawni Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn**
*Rôl y Pwyllgor i graffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus*

Craffwyd trefniadau cyflawni'r Bwrdd ar gyfer 2024-25 yn seiliedig ar Gynllun Llesiant 2023-28 Gwynedd a Môn.

**Effaith Craffu** – Amlygu'r angen i gynnwys mwy o fanylder am y trefniadau cyflawni a sut mae cynnydd yn cael ei fesur er mwyn gwireddu amcanion y Cynllun Llesiant mewn adroddiadau i'r dyfodol er sicrhau bod craffu yn gallu ychwanegu gwerth.

Argymhellwyd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus bod yr adroddiad blynyddol yn cynnwys gwybodaeth am:

- Sut mae'r Iaith Gymraeg yn cael ei hyrwyddo fesul amcan llesiant;
- Sut mae'r fethodoleg System Gyfan a Pwysau Iach: Cymru Iach yn llinyn euraidd drwy'r gwaith.

Pan graffwyd y Cynllun Llesiant Drafft codwyd materion penodol o ran gwarchodaeth i'r Iaith Gymraeg. Arweiniodd y craffu at addasiadau i'r Cynllun Llesiant Drafft ond ni ychwanegwyd fel amcan llesiant i'r cynllun. Drwy graffu gweithrediad y cynllun, mae'r craffwyr yn sicrhau bod yr Iaith Gymraeg yn flaenoriaeth barhaol ac yn cael ei hyrwyddo ym mhob maes gwaith.

**Llawlyfr Cynnal Priffyrdd**
*Craffu gweithrediad yn dilyn mabwysiadu'r Llawlyfr*

Mabwysiadodd y Cabinet y Llawlyfr Cynnal Priffyrdd yn ei gyfarfod ar 11 Gorffennaf 2023. Craffwyd gweithrediad yn dilyn mabwysiadu'r Llawlyfr.

***Effaith Craffu*** - Argymell bod yr Adran Priffyrdd, Peirianneg a Ymgynghoriaeth Gwynedd yn rhoi trefniadau mewn lle i adael i gynghorwyr wybod pan fo problem a adroddwyd wedi ei ddatrys ac edrych ar sefydlu trefniadau i adolygu safon archwiliadau.

**Gwasanaeth Edrychiad Stryd**
*Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd*

Craffwyd gwaith y gwasanaeth ers ei sefydlu, y peilot biniau clyfar a gweledigaeth yr Adran Priffyrdd, Peirianneg a Ymgynghoriaeth Gwynedd ar gyfer gwella glendid a thaclusrwydd trefi a phentrefi i'r dyfodol.

***Effaith Craffu*** – Craffu cynnydd tuag at gyflawni'r prosiect blaenoriaeth 'Cymunedau Glân a Thaclus'.

## Pwyllgor Craffu Gofal

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, Iechyd a'r Adran Tai ac Eiddo

**Gwasanaeth Iechyd Meddwl Gwynedd (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)**
*Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Ofalgar*

Craffwyd cyfeiriad gwaith y Cyngor yn y maes yn dilyn cam cyntaf adolygiad o'r gwasanaeth. Canfyddiad allweddol yn deillio o'r cam cyntaf oedd bod y model aml asiantaeth iechyd meddwl presennol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr angen ei ailfodelu. Amlinellwyd yn yr adroddiad y prif ystyriaethau.

Roedd cam 1 yr adolygiad yn awgrymu mai model gofal cymdeithasol ar wahân fyddai'r llwybr mwyaf diogel a chynhyrchiol ymlaen gan ganiatáu i iechyd ganolbwyntio ar y model meddygol/clinigol, tra gallai'r Cyngor hyrwyddo gwasanaethau ar draws y continwwm gofal.

***Effaith Craffu*** – Cefnogi cynlluniau'r adran i sefydlu model gwaith newydd ar gyfer Gwasanaeth Iechyd Meddwl gan ofyn i'r Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant gysylltu gyda Gweinidog Iechyd Llywodraeth Cymru i egluro bwriad i greu model gwaith newydd a'r rhesymau tu ôl i hynny.

**Recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol (Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd)**
*Mater ar y gofrestr risg*

Ystyriwyd y sefyllfa bresennol a chynlluniau gweithredu ym maes recriwtio a chynnal gweithlu proffesiynol yn y maes plant. Roedd yr adroddiad yn manylu ar bedwar prif fater y bwriedid rhoi sylw brys iddynt, sef - cyflogau, creu cynllun ar gyfer denu a chadw staff, buddsoddi mewn gweithwyr newydd ac arloesi mewn mentora, ymarfer adlewyrchol a hyfforddiant i staff.

***Effaith Craffu*** - Cefnogaeth i fwriad yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd i roi ffocws ar y pedwar prif fater a nodwyd yn yr adroddiad fel ymateb i'r sefyllfa staffio gan gydnabod bod rhywfaint o'r gwaith eisoes wedi cychwyn.

**Canfyddiadau Adolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru: Gwasanaeth Diogelu Plant**
*Adroddiad Archwiliwr Allanol*

Amcan cyffredinol yr adolygiad oedd i bennu i ba raddau y mae strwythurau a'r prosesau presennol yng Nghymru yn sicrhau bod plant yn cael eu gosod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, ac yn cael eu tynnu oddi arni, yn briodol pan fydd tystiolaeth ddigonol yn dangos ei fod yn ddiogel i wneud hynny. Roedd Gwynedd yn un o bum awdurdod lleol a ddewiswyd i dderbyn yr adolygiad.

***Effaith Craffu*** – Rhoi sylw i ganfyddiadau'r adolygiad a oedd yn berthnasol i Wynedd.

**Polisi Gosod Tai a Rhestr Aros Tai**
*Craffu gweithrediad y polisi a'r sefyllfa o ran rhestr aros tai*

Gyda'r Polisi Gosod Tai ar ei ffurf bresennol yn weithredol ers tair blynedd, craffwyd gweithrediad y polisi. Ystyriwyd os oedd y polisi wedi cyflawni ei bwrpas sef uchafu'r nifer o dai sy'n cael eu gosod i drigolion Gwynedd gyda chysylltiad lleol, oedd problemau wedi bod o ganlyniad i'r polisi newydd ac os oedd angen gwneud addasiadau pellach i'r polisi. Craffwyd gan ystyried y cyd-destun y disgwylid i'r Llywodraeth gyhoeddi Papur Gwyn ar ddiwygio deddfwriaeth ddigartrefedd ym mis Hydref 2023.

***Effaith Craffu*** – Craffu gweithrediad y Polisi Gosod Tai a bod yn effro i oblygiadau posibl i'r polisi o ganlyniad i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru.

**Siop Un Stop Tai**
*Dilyniant yn dilyn craffu yng nghyfarfod 30 Medi 2021*

Cyflwynwyd adroddiad ar y bwriad i sefydlu Siop Un Stop, fel mynedfa i drigolion Gwynedd i gael cymorth gyda'u hanghenion tai, gerbron cyfarfod y Pwyllgor ar 30 Medi 2021. Craffwyd y datblygiadau diweddaraf wrth sefydlu'r Siop Un Stop.

***Effaith Craffu*** - Derbyn sicrwydd o ddatblygiad y Siop un Stop ac amlygu'r angen i hwyluso cyfathrebiad rhwng cynghorwyr a chymdeithasau tai.

**Llety cefnogol cyffredinol gan gynnwys gwasanaethau anableddau dysgu, iechyd meddwl a chefnogaeth i ferched**
*Craffu'r ddarpariaeth a'r trefniadau monitro*

Craffwyd sefyllfa llety a chefnogaeth i unigolion ag Anabledd Dysgu yng Ngwynedd. Ystyriwyd y sefyllfa gyfredol, cydweithio, prosiectau newydd a'r gwaith cynllunio i'r dyfodol er mwyn darparu llety a chefnogaeth o safon uchel i unigolion ag anabledd dysgu yng Ngwynedd.

***Effaith Craffu*** – Derbyn sicrwydd o sefyllfa llety cefnogol i unigolion ag anableddau dysgu yng Ngwynedd a gwneud cais am wybodaeth am lety cefnogol sy'n cael ei ddarparu gan y gwasanaeth iechyd meddwl ac ar gyfer cefnogaeth i ferched.

**Gwasanaeth Gofal Dydd**

*Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Ofalgar*

Adroddwyd ar y bwriad i adolygu'r ddarpariaeth bresennol, a symud i ffwrdd o'r term gofal dydd, a gwasanaethau ynghlwm ag adeiladau. Ymhelaethwyd ar y symudiad at ganolbwyntio ar sut gellir cyfarch a chefnogi llesiant unigolion a'u gofalwyr mewn amryw o wahanol ffyrdd gan ddarparu gwasanaethau hyblyg sy'n cwrdd â'r angen.

***Effaith Craffu*** – Cefnogi'r bwriad i gynnal adolygiad llawn o'r ddarpariaeth bresennol ac ystyried model amgen gan ofyn i swyddogion sicrhau bod y model newydd yn darparu gwasanaeth cyson ar draws y sir gan gynnwys gwasanaeth i rai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig.

**Trefniadau rheoli a chynnal cartrefi gofal**

*Cais gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio*

Yn dilyn archwiliad mewnol cytunwyd ar gamau gweithredu ar gyfer Cartref Plas Gwilym, Cartref Hafod Mawddach a Chartref Bryn Blodau er mwyn gwella cydymffurfiaeth â rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt. Roedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn awyddus i'r Pwyllgor graffu os oedd y camau gweithredu wedi eu gweithredu ac os oedd gweithdrefnau rheolaethol yn cael eu dilyn gan y cartrefi gofal.

***Effaith Craffu*** – Derbyn sicrwydd bod cynnydd wedi'i wneud ers yr archwiliadau cyntaf. Datgan pryder am heriau staffio cartrefi gofal a'r problemau a ddaw yn sgil hynny megis anhawster cwblhau hyfforddiant a gofyn i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ystyried sut y gellir sicrhau bod pob cartref yn cyrraedd lefel sicrwydd uchel yn y dyfodol.

**Cefnogaeth i ofalwyr di-dâl**

*Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Ofalgar*

Mae ymroddiad gofalwyr di-dâl yn sicrhau bod modd i nifer o bobl dderbyn gofal a pharhau i fyw yn annibynnol yn eu cartrefi. Ystyriwyd os oes cefnogaeth addas i ofalwyr di-dâl sy'n diwallu eu hanghenion a chynlluniau ar y gweill i wella'r ddarpariaeth.

***Effaith Craffu*** - Datgan cefnogaeth i godi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr di-dâl gan gynnwys y Cynllun Taliadau Uniongyrchol. Amlygwyd yr angen i godi ymwybyddiaeth aelodau o'r Cynllun Taliadau Uniongyrchol.

**Cynllun Gweithredu Tai**

*Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Glyd*

Nod y Cynllun Gweithredu Tai yw "Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd". Craffwyd cynnydd prif brosiectau'r Cynllun. Ystyriwyd yr hyn a gyflawnwyd ers ei fabwysiadu ym mis Ebrill 2021, yr hyn oedd ar y gweill ac wedi'i gynllunio ar gyfer y misoedd i ddod.

***Effaith Craffu*** – Tracio cynnydd gwireddu prosiect blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor. Adnabod yr angen i fynd o dan groen y Polisi Gosod Tai Cymdeithasol a derbyn sicrwydd o wytnwch y drefn.

**Gwaith ataliol a gomisiynir i'r trydydd sector (oedolion a phlant)**

*Sicrwydd o ran y ddarpariaeth a'r trefniadau monitro*

Blaenoriaethwyd y mater i'w graffu oherwydd yr angen i dderbyn sicrwydd bod y Cyngor yn cael gwerth am arian, yr hyn sydd wedi ei gyflawni a'r trefniadau monitro ar gyfer y gwasanaethau ataliol a ddarperir gan y trydydd sector yn y maes gofal.

***Effaith Craffu*** - Amlygu anghysondeb o ran lefel y manylder a dderbynnir a'r wybodaeth perfformiad y gofynnir amdano gan y trydydd sector a'r angen i gysoni ar draws y sector. Cefnogi'r syniad o drefn drawsadrannol i fonitro.

**Protocol Syrthio**

*Cyfrannu at sefydlu protocol syrthio er defnydd gofalwyr yn y gymuned*

O ganlyniad i ymholiad gan aelod yng nghyswllt os oedd protocol ar y cyd rhwng y gwasanaeth iechyd a'r Cyngor o ran ymateb gofalwyr yn y gymuned (nid mewn cartrefi gofal) pan fo unigolyn bregus yn syrthio. Cydweithiwyd gyda'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, y Bwrdd Iechyd a'r Gwasanaeth Ambiwlans o ran rhoi trefniadau mewn lle.

***Effaith Craffu*** - Arwain at weithredu'r protocol SYRTHIAF, hyfforddi staff a gofalwyr y Cyngor i'w ddefnyddio, ystyried dosbarthu'r wybodaeth i'r cyhoedd, cyd-weithio â'r Bwrdd Iechyd i wella hyfforddiant i bob gofalwr a chyd-weithio â'r Gwasanaeth Ambiwlans i ddarparu offer a hyfforddi gwirfoddolwyr lleol fel rhan o gynllun peilot.

**Adroddiad Blynyddol 2022-23 - Gweithdrefn Cwynion, Ymholiadau a Diolchiadau Plant a Chefnogi Teuluoedd a Oedolion, Iechyd a Llesiant**
*Sicrwydd o ran y trefniadau ar gyfer delio gyda chwynion ym maes gwaith gofal*

Craffwyd Adroddiad Blynyddol ar weithrediad y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion gan ystyried y trefniadau ar gyfer delio'n effeithiol â chwynion a dderbyniwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr.

***Effaith Craffu*** – Derbyn sicrwydd o ran y trefniadau ar gyfer delio gyda chwynion ym maes gwaith gofal.

**Gwasanaeth Egwyl Fer (Tîm Integredig Derwen)**
*Sicrwydd bod darpariaeth addas ar gael i bawb sydd angen y gwasanaeth*

Mae Tîm Integredig Derwen yn darparu egwyl fer trwy'r gwasanaeth cefnogol mewn sawl dull gwahanol - gofal cartref, cymunedol a grwpiau amrywiol. Gwelwyd cynnydd sylweddol mewn cyfeiriadau am wasanaeth dros y tair blynedd diwethaf gan arwain at gynnydd yn y rhestrau aros. Craffwyd y ddarpariaeth a'r galw am wasanaeth.

***Effaith Craffu*** - Derbyn sicrwydd am y ddarpariaeth a chydnabod y sefyllfa gyllidol er parhau i gynnig y gwasanaeth i bawb sydd ei angen.

Gellir gweld rhaglenni a chofnodion cyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu o dan y linc yma – **www.gwynedd.llyw.cymru/craffu**

# Ymchwiliad Craffu

Cyflwynwyd adroddiad Ymchwiliad Craffu Ysgolion Uwchradd Categori 3 Gwynedd i gyfarfod 14 Medi 2023 y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi. Roedd yn ffrwyth gwaith trylwyr dros gyfnod o amser. Aelodau'r grŵp a gynhaliodd y gwaith oedd y Cynghorwyr:

- Paul Rowlinson (Cadeirydd)
- Cai Larsen
- Beth Lawton
- Huw Rowlands
- Rhys Tudur

Y prif gwestiwn roedd yr ymchwiliad yn ei gyfarch oedd:

**'Beth yw'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ein hysgolion uwchradd a pha gynlluniau sydd mewn lle i gynyddu'r ddarpariaeth yng Nghyfnod Allweddol 3, Cyfnod Allweddol 4 a Chyfnod Allweddol 5 yng Ngwynedd?'**

Ystyriwyd gweithrediad Polisi Iaith Addysg yr Awdurdod mewn tair ysgol uwchradd categori 3 (1 ysgol o Arfon, Dwyfor a Meirionnydd), sef:

- Ysgol Dyffryn Nantlle
- Ysgol Eifionydd
- Ysgol Godre'r Berwyn

Cynhaliwyd pedwar cyfarfod o'r Ymchwiliad rhwng Mawrth 2023 a Gorffennaf 2023 lle bu holl aelodau'r ymchwiliad yn bresennol. Cynhaliwyd yn ogystal ymweliad â'r tair ysgol gan gynnal sgyrsiau gydag arweinwyr a grwpiau ffocws gyda dysgwyr a staff / llywodraethwyr sy'n rhieni.

Bu'r cyfarfodydd a'r ymweliadau yn fodd i aelodau'r ymchwiliad gasglu tystiolaeth a thrafod y canfyddiadau ac argymhellion.

Deilliodd 17 argymhelliad o'r gwaith craffu er sylw'r Aelod Cabinet Addysg, a oedd yn cynnwys:

- Bod yr Awdurdod yn gwneud ceisiadau blynyddol i'r ysgolion am ddata cyfrwng iaith eu darpariaeth ac yn gwirio'r sefyllfa.
- Bod yr Awdurdod Addysg yn rhoi targedau penodol i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer pob ysgol uwchradd, sydd yn gydnaws â'r targedau sirol, gan fonitro cyflawniad.

- Bod yr Awdurdod Addysg yn addasu'r Polisi Iaith enghreifftiol ar gyfer ysgolion gan roi mwy o bwyslais ar y Gymraeg a'i wneud yn gliriach o ran beth a olygir wrth "ddwyieithrwydd".
- Bod yr Awdurdod Addysg yn datblygu ac yn cynyddu'r cydweithio â'r ddwy ysgol Categori 3T mewn modd fydd yn cyflymu eu taith i fod yn ysgolion Categori 3.
- Bod yr Awdurdod Addysg yn cryfhau'r ddarpariaeth / cefnogaeth ieithyddol i hwyrddyfodiaid sydd yn ymuno ym mlwyddyn 10 neu 11.
- Bod yr Awdurdod Addysg yn cydweithio â sefydliadau eraill a Menter Iaith Gwynedd er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau cymdeithasol cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc.

Gellir cael mynediad i adroddiad llawn yr ymchwiliad o dan y ddolen yma - **Adroddiad Ymchwiliad Craffu Ysgolion Uwchradd Categori 3 Gwynedd**

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 21 Mawrth 2024, derbyniwyd adroddiad cynnydd yr Aelod Cabinet/Adran Addysg mewn ymateb i'r argymhellion - **Adroddiad Cynnydd**. Croesawyd bod yr Adran yn cydweithio gydag ymgynghorydd llawrydd i ail-edrych ar Bolisi Iaith Addysg Gwynedd.

***Effaith Craffu***

Cyfrannu at wella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ysgolion uwchradd y sir.

# Grŵp Tasg a Gorffen

Cyflwynwyd diweddariad ar Gynllun Awtistiaeth Gwynedd i gyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Gofal ar 20 Ebrill 2023. Yn dilyn y drafodaeth, penderfynodd y pwyllgor eu bod yn awyddus i sefydlu grŵp tasg a gorffen i drafod y mater ymhellach gan wneud cais am sicrhau cynrychiolwyr o'r Adran Addysg a'r Bwrdd Iechyd i fod yn bresennol. Daethpwyd i'r casgliad y dylid estyn gwahoddiad i gynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi hefyd gan fod y gwaith yn pontio meysydd gwaith y ddau bwyllgor.

Cymeradwywyd brîff ar gyfer gwaith y grŵp tasg yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Gofal ar 21 Medi 2023. Bwriad y gwaith oedd sicrhau dealltwriaeth o weithrediad Cynllun Awtistiaeth Gwynedd yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys:

- dealltwriaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael i unigolion a'u teuluoedd wrth ddisgwyl diagnosis, ac a oes unrhyw rwystrau wrth ddisgwyl diagnosis;
- yn dilyn diagnosis, yn arbennig y gefnogaeth sydd ar gael i blant o fewn ein hysgolion, ac a oes unrhyw rhwystrau.



Yr aelodau a gynhaliodd y gwaith craffu oedd y Cynghorwyr Elwyn Jones (Cadeirydd), Gareth Coj Parry a Jina Gwyrfai a'r Cynghorwyr Dawn Lynne Jones a Gwynfor Owen yn cynrychioli'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi.

Bu i'r Grŵp Tasg gyfarfod ar 19 Chwefror 2024, gyda swyddogion o'r Adrannau Plant a Chefnogi Teuluoedd, Oedolion, Iechyd a Llesiant ac Addysg yn bresennol. Derbyniwyd gwybodaeth ysgrifenedig gan Reolwr Gwasanaeth Tîm Niwro-ddatblygiadol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Cynhaliwyd cyfarfod dilynol o'r Grŵp Tasg ar 28 Chwefror 2024 er mwyn llunio canfyddiadau ac adnabod argymhellion.

Cyflwynwyd adroddiad ar waith y Grŵp Tasg a Gorffen i gyfarfod y Pwyllgor Craffu Gofal ar 11 Ebrill 2024. Gwnaed argymhellion yng nghyswllt hyfforddiant, cynllunio ysgolion ac adeiladau'r Cyngor a bod y Pwyllgor yn derbyn diweddariad ymhen 12 mis. Gellir cael mynediad i adroddiad y Grŵp Tasg o dan y ddolen yma – **Adroddiad Grŵp Tasg a Gorffen Cynllun Awtistiaeth**

Penderfynodd y Pwyllgor:

a) Derbyn canfyddiadau'r Grŵp Tasg a Gorffen.

b) Gofyn i'r gwasanaeth:-

- gynnal awdit o sefyllfa hyfforddiant staff proffesiynol sy'n gweithio yn y maes fel cam cyntaf.

- Yna ystyried gosod targed ar gyfer cyflawni hyfforddiant gan anelu i'w cynnwys ar y rhaglen hyfforddiant craidd fel a ganlyn:-
    a) staff sy'n gweithio neu'n dod i gyswllt gyda phobl ag awtistiaeth (fesul adran a chan gynnwys ysgolion) a
    b) hyfforddiant codi ymwybyddiaeth ymhlith holl staff y Cyngor.
- adeiladu ar yr hyfforddiant i staff mewn ysgolion a meddygfeydd ynghylch cyfeirio at y Tîm Niwro-ddatblygiadol mewn achosion nad ydynt yn gymwys.
- annog yr holl Gynghorwyr i ddilyn yr e-fodiwl hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth a mynychu dyddiau agored ar draws y Sir sy'n galluogi pawb i gael profiad ar y bws awtistiaeth.

c) Argymell fod y Pwyllgor Craffu, ar y cyd â'r Aelod Cabinet Plant a Theuluoedd, yn cysylltu gyda'r Aelod Cabinet Tai ac Eiddo i sicrhau mewnbwn gan y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol i ddatblygiad unrhyw ysgol newydd neu addasiadau i unrhyw ysgol i'r dyfodol er mwyn ei gwneud yn addas i unigolion gydag awtistiaeth e.e. gofod tawel, gallu lleihau'r golau ayyb. Byddai'n fuddiol sefydlu'r egwyddor o sicrhau mewnbwn gan y Tîm Awtistiaeth (Adran Plant ac Oedolion) ar gyfer unrhyw ddatblygiad newydd neu addasiad i unrhyw adeilad arall gan y Cyngor.

ch) Yn sgil pryder fod y cynllun yn cael ei ariannu trwy grant yn gyfredol, bod y Pwyllgor Craffu Gofal yn gofyn am ddiweddariad ymhen 12 mis pellach o weithredu i sicrhau fod cynnydd yn parhau i ddigwydd, gan ofyn am fewnbwn Addysg ac Iechyd unwaith eto.

***__Effaith Craffu__***

Craffu gweithrediad y Cynllun Awtistiaeth mewn mwy o fanylder gan wneud argymhellion i wella gweithrediad er budd unigolion gydag awtistiaeth.

# Herio Perfformiad

Mae cyfarfodydd herio perfformiad yn cael eu cynnal bob yn ail fis (ac eithrio mis Ebrill a mis Awst), fesul maes gwaith adrannau'r Cyngor. Ystyrir datblygiadau prosiectau'r Adrannau sydd yng Nghynllun y Cyngor, mesurau perfformiad 'dydd i ddydd' ynghyd â'r gofrestr risg.

Rhoddir gwahoddiad i gynrychiolwyr y pwyllgorau craffu i fynychu cyfarfodydd dwywaith y flwyddyn.

Mae cynrychiolwyr y pwyllgorau craffu yn cael gwahoddiad er mwyn:

- Cael blas o faint o afael sydd ar faterion perfformiad o fewn yr adrannau unigol.
- Adnabod, os oes angen, unrhyw faterion perfformiad allai deilyngu sylw mewn pwyllgor craffu ffurfiol maes o law.

Disgwylir i'r cynrychiolwyr adrodd yn ôl i'r cyfarfod anffurfiol cyntaf o'r pwyllgor craffu perthnasol yn dilyn y cyfarfodydd hyn. Dyma'r aelodau a fynychodd cyfarfodydd herio perfformiad yn ystod 2023/24:

| Addysg | Economi | Cefnogaeth Gorfforaethol a Cyfreithiol | Cyllid |
|---|---|---|---|
| Beth Lawton<br>Gwynfor Owen<br>wrth gefn<br>Jina Gwyrfai | Iwan Huws<br>Dewi Owen<br>wrth gefn<br>Jina Gwyrfai | Cai Larsen<br>Huw Rowlands | Beth Lawton<br>Paul Rowlinson |

| Amgylchedd | Priffyrdd, Peirianneg a YGC |
|---|---|
| Llio Elenid Owen<br>Rhys Tudur | Stephen Churchman a Rob Triggs<br>wrth gefn - Arwyn Roberts |

| Oedolion, Iechyd a Llesiant | Plant a Chefnogi Teuluoedd | Tai ac Eiddo |
|---|---|---|
| Meryl Roberts<br>Sasha Williams | Gwynfor Owen<br>Sasha Williams | Menna Baines<br>Dewi Jones |

# Hyfforddiant

Cynhaliwyd sesiynau penodol i aelodau craffu ar 'Arfer Gorau Pwyllgorau Craffu' gan hyfforddwyr allanol ym mis Mawrth 2024. Roedd un sesiwn Gymraeg ac un sesiwn Saesneg. Cymerodd 24 aelod y cyfle i fynychu sesiwn gyda dau aelod wedi mynychu'r ddau.

Yn y sesiwn hyfforddiant amlygwyd pwrpas bod yn gynghorydd a phwrpas craffu, gwnaed awgrymiadau o sut i wneud defnydd effeithiol o amser pwyllgor a phwysigrwydd cwestiynu'n strategol a gwneud argymhellion penodol mae modd eu gwireddu.

Tynnwyd sylw aelodau bod 2 math o graffu – adweithiol ac rhagweithiol:

| **ADWEITHIOL**<br>*Dal i Gyfrif* | **RHAGWEITHIOL**<br>*Cefnogi Gwella* |
|---|---|
| Ymgynghori â gwneud argymhellion trwy:<br>• Bwyllgorau;<br>• Ymchwiliadau;<br>• Grwpiau Tasg a Gorffen. | • Monitro<br>• Herio<br>• Ceisio sicrwydd am:<br>➢ berfformiad;<br>➢ penderfyniadau sydd i ddod;<br>➢ penderfyniadau a wnaethpwyd;<br>➢ polisïau. |

Pwysleisiwyd pwysigrwydd gwneud gwahaniaeth nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yn ystod yr hyfforddiant, rhannodd yr hyfforddwyr syniadau i'w hystyried wrth ddatblygu ein trefniadau craffu. Er enghraifft, yr angen i ystyried y daith i benderfyniad gan ddod i gasgliad ar ddiwedd trafodaeth ar eitem os yw'r Pwyllgor wedi derbyn sicrwydd neu beidio, ag os oes angen gwneud argymhellion penodol; adnabod cwestiynau i'w hateb yn yr adroddiad er mwyn gwneud gwell defnydd o amser yng nghyfarfodydd pwyllgor; ac asesu perfformiad y Pwyllgor drwy sgorio fesul eitem yn dilyn y cyfarfodydd.


Mae'n deg dweud bod yr aelodau a fynychodd yr hyfforddiant wedi ei weld yn fuddiol a defnyddiol. Bydd y syniadau a rannwyd yn ystod yr hyfforddiant i'w hystyried wrth ddatblygu ein trefniadau craffu, yn bwydo i mewn i newidiadau ymarferol pellach i'w treialu/datblygu yn ystod 2024/25, er mwyn adeiladu ar y camau gweithredu i ymateb i adolygiad Archwilio Cymru.

# Ffeithiau am Graffu yng Ngwynedd yn 2023/24



**45 aelod (allan o 59 sy'n bosib) wedi bod yn rhan o wneud y gwaith craffu pwysig yn ystod y flwyddyn.**

**43 eitem wedi eu craffu mewn cyfarfodydd ffurfiol. (33 llynedd)**








**cyfarfod o'r Fforwm Craffu wedi ei gynnal yn ystod y flwyddyn.**

**Aelod o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn cynrychioli'r Pwyllgor ar Fforwm Iaith Addysg Gwynedd.**

**Aelod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn cynrychioli'r Pwyllgor ar y Bwrdd Newid Hinsawdd a Natur.**

**3 aelod o'r Pwyllgor Craffu Gofal yn cynrychioli'r Pwyllgor ar Grŵp Craffu Cyd-Bwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru.**



# Rhaglen Waith Craffu 2023-24

## PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

| Dyddiad | Eitemau | Rheswm dros graffu |
|---|---|---|
| **08/06/23** | • Cynllunio Argyfwng | Sicrhau bod trefniadau mewn lle o ran cynllunio argyfwng |
| | • Canol Trefi Gwynedd | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Lewyrchus |
| **14/09/23** | • Cynllun Digidol | Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Effeithlon |
| | • Adroddiad Ymchwiliad Craffu Ysgolion Uwchradd Categori 3 Gwynedd | Ymchwiliad Craffu |
| | • Strategaeth Addysg | Blaengraffu |
| | • Presenoldeb ac ymddygiad disgyblion yn ysgolion Gwynedd | Effaith cyfnod pandemig Covid-19 ar y maes |
| **09/11/23** | • Adroddiad Estyn ar wasanaethau addysg yng Nghyngor Gwynedd | Adroddiad Archwiliwr Allanol |
| | • Cwmni Byw'n Iach | Mater ar y gofrestr risg |
| | • Rheolaeth Traethau | Mater ar y gofrestr risg |
| **25/01/24** | • Prosiect Datblygu Economi Gwynedd | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Lewyrchus |
| | • Amcanion Cydraddoldeb 2024-28 | Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Effeithlon |
| | • Adroddiad Blynyddol Addysg ac Adroddiad Blynyddol GwE | Eitemau Blynyddol / Sicrwydd |
| | • Prosiect Addysg Ôl-16 yn Arfon | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Yfory |
| **21/03/24** | • Cynllun Twf Gogledd Cymru – Adroddiad Perfformiad Chwarter 3 2023/24 | Rôl y Pwyllgor i graffu gwaith y Bwrdd Uchelgais |
| | • Adroddiad Cynnydd ar Argymhellion Ymchwiliad Craffu Ysgolion Uwchradd Categori 3 Gwynedd | Tracio - Ymchwiliad Craffu |
| | • Cinio ysgol am ddim | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Yfory |

## PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

| Dyddiad | Eitemau | Rheswm dros graffu |
|---|---|---|
| **13/07/23** | • Adroddiad Blynyddol 2022/23 - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn<br>• Datblygiadau yn y maes Cludiant Cyhoeddus | Rôl y Pwyllgor i graffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus<br>Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |
| | | |
| **05/10/23** | • Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Y Cytundeb Cyflawni<br>• Cyflwyno pwyntiau gwefru cyhoeddus ar gyfer cerbydau trydan<br>• Toiledau Cyhoeddus | Rôl i graffu'r Cynllun Datblygu Lleol / Cynllun y Cyngor 2023-28<br>Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd<br>Craffu rheolaeth y ddarpariaeth toiledau cyhoeddus |
| | | |
| **30/11/23** | • Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur<br>• Strategaeth Llifogydd Lleol | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd<br>Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |
| | | |
| **22/02/24** | • Diweddariad Blynyddol gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn<br>• Strategaeth Llifogydd Lleol<br>• Torri Gwair a Chynnal Tiroedd | Rôl y Pwyllgor fel Pwyllgor Trosedd ac Anrhefn<br>Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd<br>Dilyniant yn dilyn craffu yng nghyfarfod 19 Ionawr 2023 |
| | | |
| **18/04/24** | • Trefniadau Cyflawni Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn<br>• Llawlyfr Cynnal Priffyrdd<br>• Gwasanaeth Edrychiad Stryd | Rôl y Pwyllgor i graffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus<br>Craffu gweithrediad yn dilyn mabwysiadu'r Llawlyfr<br>Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |

## PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

| Dyddiad | Eitemau | Rheswm dros graffu |
|---|---|---|
| **22/06/23** | • Gwasanaeth Iechyd Meddwl Gwynedd (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Ofalgar |
| | • Recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol (Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd) | Mater ar y gofrestr risg |
| | • Canfyddiadau Adolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru: Gwasanaeth Diogelu Plant | Adroddiad Archwiliwr Allanol |
| | | |
| **21/09/23** | • Polisi Gosod Tai a Rhestr Aros Tai | Craffu gweithrediad y polisi a'r sefyllfa o ran rhestr aros tai |
| | • Siop Un Stop Tai | Dilyniant yn dilyn craffu yng nghyfarfod 30 Medi 2021 |
| | • Llety cefnogol cyffredinol gan gynnwys gwasanaethau anableddau dysgu, iechyd meddwl a chefnogaeth i ferched | Craffu'r ddarpariaeth a'r trefniadau monitro |
| | • Brîff Grŵp Tasg a Gorffen Cynllun Awtistiaeth | Grŵp Tasg a Gorffen |
| | | |
| **23/11/23** | • Gwasanaeth Gofal Dydd | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Ofalgar |
| | • Trefniadau rheoli a chynnal cartrefi gofal | Cais gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| | • Cefnogaeth i ofalwyr di-dâl | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Ofalgar |
| | | |
| **01/02/24** | • Cynllun Gweithredu Tai | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Glyd |
| | • Gwaith ataliol a gomisiynir i'r trydydd sector (oedolion a phlant) | Sicrwydd o ran y ddarpariaeth a'r trefniadau monitro |
| | • Protocol Syrthio | Cyfrannu at sefydlu protocol syrthio er defnydd gofalwyr yn y gymuned |
| | | |
| **11/04/24** | • Adroddiad Blynyddol 2022-23 - Gweithdrefn Cwynion, Ymholiadau a Diolchiadau Plant a Chefnogi Teuluoedd a Oedolion, Iechyd a Llesiant | Sicrwydd o ran y trefniadau ar gyfer delio gyda chwynion ym maes gwaith gofal |
| | • Gwasanaeth Egwyl Fer (Tîm Integredig Derwen) | Sicrwydd bod darpariaeth addas ar gael i bawb sydd angen y gwasanaeth |
| | • Adroddiad Grŵp Tasg a Gorffen Cynllun Awtistiaeth | Grŵp Tasg a Gorffen |